

# Adroddiad Blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2021/22

## Cynnwys

<b>Rhan 1: Cyflwyniadau .....</b>	<b>2</b>
Rhagair gan y Cadeirydd, Dr Aled Eirug.....	2
Adroddiad y Prif Weithredwr, Dr Ioan Matthews .....	3
<b>Rhan 2: Cynnydd tuag at wireddu ein Cynllun Strategol.....</b>	<b>6</b>
Maes 1: Profiad y dysgwr .....	7
Amcan 1 .....	7
Amcan 2.....	14
Maes 2: Darpariaeth .....	20
Amcan 1 .....	20
Amcan 2.....	25
Maes 3: Ymwybyddiaeth Cyflogwyr .....	31

### Rhan 1: Cyflwyniadau

#### Rhagair gan y Cadeirydd, Dr Aled Eirug

Braint ac anrhydedd oedd cael fy mhenodi yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i olynu'r diweddar, a'r annwyl, Gareth Pierce. Hoffwn ddiolch i aelodau'r bwrdd, y Prif Weithredwr, y rheolwyr a'r swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod fy misoedd cyntaf yn y swydd. Diolch yn arbennig i Llinos Roberts am gadeirio'r bwrdd yn ystod y flwyddyn, a hynny ar adeg anodd iddi yn bersonol.

Mae'r adroddiad blynyddol eleni yn adlewyrchu cyfraniad allweddol y Coleg wrth gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein sefydliadau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau. Mae hefyd yn darlunio ein cefnogaeth i amcan Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Coleg yn rhan hollbwysig o'r strategaeth hon ar draws addysg drydyddol, gan gynnwys addysg bellach, hyfforddiant a phrentisiaethau, ac edrychaf ymlaen i weld y gwaith hwn yn datblygu er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer defnyddio mwy o'r Gymraeg mewn cyflogaeth a'r gweithlu.

Mae'r adroddiad unwaith eto yn enghreifftio ehangder gwaith y Coleg erbyn hyn, ac mae'n galonogol fod rhaglen lywodraethu'r Llywodraeth a'r cytundeb cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru yn cynnig cynnydd pellach yng nghyllideb y Coleg dros y blynyddoedd nesaf. Hoffwn ddiolch i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, a'i swyddogion am eu cefnogaeth cyson yn ystod y flwyddyn ac edrychwn ymlaen at groesawu'r Gweinidog i gyfarfod gydag aelodau'r bwrdd yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r Coleg wedi cyflawni llawer yn ystod y degawd ers ei sefydlu yn 2011, ond mae llawer i'w gyflawni eto, ac yr wyf i, aelodau'r bwrdd, a'n swyddogion yn edrych ymlaen at adeiladu ar y gwaith hwnnw yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### Adroddiad y Prif Weithredwr, Dr Ioan Matthews

Wedi dwy flynedd heriol bu cyfle eleni i'r Coleg, fel cynifer o sefydliadau eraill, i ailafael yn ein gweithgareddau arferol, ac fe wnaeth hynny ein galluogi i gynnal cyfres o ddigwyddiadau yn y gwanwyn a'r haf i ddathlu deng mlynedd ers sefydlu'r Coleg. Cyrhaeddodd y dathliadau hyn eu penllanw yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst. Yn ogystal â dathliad ar y prynhawn Mercher a oedd yn cynnwys perfformiad o gân a gyfansoddwyd gan Kizzy Crawford a nifer o'r myfyrwyr sy'n lysgenhadon ar ran y Coleg, traddodwyd darlith gofiadwy gan yr Athro Geraint H Jenkins yn y Babell Lên ar *Merêd*, y *Dyn Llawen*. Coffa da am y Dr Meredydd Evans, a'i gyfraniad nodedig at sefydlu'r Coleg.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Coleg wedi parhau i gyfrannu at ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg, a'r cynllunio tuag at wireddu'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Cred y Coleg mai targed yn hytrach na dyhead yw'r miliwn siaradwyr, ac am y rheswm hwnnw y mae wedi parhau i bwysleisio pwysigrwydd datblygu gweithlu addysg hyfyw ac ymatebol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno i bob disgybl yn ysgolion Cymru mewn ffordd a fydd yn eu galluogi i fod yn ddinasyddion dwyieithog erbyn gadael y sector statudol. Wrth groesawu'r cyllid prosiect penodol sydd wedi ei ddarparu i'r Coleg, ymysg pethau eraill ar gyfer cynnal prosiect cynnal cyswllt â myfyrwyr sydd yn astudio y tu allan i Gymru, credwn fod angen adeiladu ar Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg sydd wedi ei gyhoeddi eleni er mwyn creu strategaeth tymor hir a fydd yn sicrhau cyflenwad digonol o athrawon. Rwy'n llunio'r sylwadau hyn rai dyddiau wedi cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, ac wrth ystyried y data hynny'n ofalus a systematig mae'n amserol i ystyried o'r newydd sut i ymgynhyrfaedd at darged heriol 2050.

Yn y cyswllt hwn, braf yw adrodd bod y Coleg wedi dyfnhau ei bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan sicrhau ein bod fel dau sefydliad yn gweithredu mewn modd cydlynus a strategol, yn enwedig mewn meysydd lle mae ein cenhadaeth a'n cynlluniau yn cydgordio. Enghraifft dda o hyn yw'r cynlluniau

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

*Cymraeg Gwaith* sydd yn cynnig cyfle i gyflwyno'r Gymraeg o'r newydd mewn meysydd blaenoriaeth, megis iechyd a gofal, yn ogystal ag oddi mewn i'n prifysgolion a'n colegau. Ar nodyn personol, pleser yw diolch i gyn Brif Weithredwr y Ganolfan, Efa Gruffydd Jones, am ei chydweithrediad cyson dros y chwe mlynedd ddiwethaf, ac wrth ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd fel Comisiynydd y Gymraeg, edrychaf ymlaen at gydweithio gyda'i holynydd, Dona Lewis.

Ers ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg yn 2018 i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni i ddatblygu a dechrau gweithredu strategaeth tymor hir ar gyfer y meysydd hyn. Mae'n dda gallu adrodd y sicrhawyd cynnydd sylweddol yn y gyllideb ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau yn ystod y flwyddyn ac mae hynny wedi ein galluogi i ddechrau buddsoddi yn fwy sylweddol, yn benodol er mwyn galluogi colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i gynyddu eu capasiti i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, cyhoeddwyd ein partneriaeth strategol â Chymwysterau Cymru ac, yn y cyfamser, mae'r Coleg yn croesawu'r adolygiad a gyhoeddwyd gan Weinidog y Gymraeg ar ddatblygu cymwysterau galwedigaethol at ddibenion Cymru ac yn cyfrannu'n weithredol at yr adolygiad hwnnw.

Ym maes addysg uwch, prif ddatblygiad y flwyddyn oedd adolygu ein Cynllun Academiaidd ac yn dilyn ymgynghoriad â'r prifysgolion a phartneriaid eraill, mae'r cynllun ar ei newydd wedd yn cynnig cyfleoedd i ymestyn cynulleidfaoedd a sicrhau bod canran hyd yn oed yn uwch o fyfyrwyr yng Nghymru yn dilyn o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Un o'r heriau mwyaf yn y blynyddoedd diweddar fu effaith y newid yn y trefniadau cyllido ddegawd yn ôl pan ddilëwyd y premiwn cyfrwng Cymraeg a oedd yn cydnabod o fewn y fformiwla cyllido y costau ychwanegol o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr adroddiad gwreiddiol gan yr Athro Robin Williams cyn sefydlu'r Coleg yn rhagdybio parhad y premiwm ochr yn ochr â chyllid strategol gan y Coleg ac felly bu gweithredu heb y cyllid hwn yn heriol ar adegau. Am y rheswm hwnnw, yr ydym yn croesawu'n fawr yr adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sydd yn cydnabod o'r

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

newydd y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Uchafbwynt arall eleni oedd penodi aelod newydd o staff i rôl newydd o fewn y Coleg er mwyn arwain ar ein gwaith yn y maes amrywiaeth, cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth. Mae'r Coleg yn cydnabod bod cryn dipyn o ffordd i fynd er mwyn sicrhau bod addysg ôl-orfodol Cymraeg a dwyieithog yn gynhwysol, yn berthnasol ac yn agored i bawb ond rwy'n hyderus bod y camau ry'n ni wedi eu cymryd dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gydnabod hyn a rhoi adnoddau mewn lle yn mynd i arwain at gynnydd.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y Comisiwn Trydyddol ac Ymchwil newydd yn cychwyn ar ei waith ac yn etifeddu gwaith a wnaed hyd yma gan y Cyngor Cyllido ym maes addysg uwch, ac o fewn Llywodraeth Cymru o ran addysg bellach a phrentisiaethau. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg newydd gadarnhau y bydd proses ffurfiol i ddynodi'r Coleg fel corff i gynghori'r Comisiwn newydd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael ei chwblhau yn ystod y misoedd nesaf, ac edrychwn ymlaen at gydweithio â'r Comisiwn newydd. Edrychwn ymlaen hefyd at gyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn arwain at gyflwyno Bil Addysg Gymraeg cyn diwedd tymor y Senedd, a bydd gan y ddeddfwriaeth hon ran bwysig i'w chwarae wrth roi prosesau cynllunio a gweithredu ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog ar seiliau cadarnach.

I gloi, hoffwn ddiolch unwaith eto eleni i'm cydweithwyr yn y Coleg am eu cefnogaeth gyson a'u brwdfrydedd dros bob agwedd ar waith y Coleg. Fel pob sefydliad, mae'r cyfnod diweddar wedi ein gorfodi i newid ein trefniadau gweithio, a thra bod rhai datblygiadau megis gweithio hybrid yn debygol o barhau, bu hefyd yn braf i gyfarfod unwaith yn rhagor ac i allu ymweld yn fwy rheolaidd â phrifysgolion, colegau ac ysgolion. Ym mis Mawrth 2023, bwriadwn gynnal Cynulliad Blynyddol y Coleg am y tro cyntaf ers 2019. Pleser hefyd yn ystod y misoedd diwethaf fu cydweithio â chadeirydd newydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, Dr Aled Eirug, a hoffwn ddiolch iddo ac i holl aelodau'r bwrdd a'i bwyllgorau am rannu eu profiad, eu cyngor a'u harbenigedd er mwyn arwain y Coleg yn hyderus i mewn i'w ail ddegawd. Diolch o galon i chi i gyd.

## Rhan 2: Cynnydd tuag at wireddu ein Cynllun

### Strategol

Lansiwyd [Cynllun Strategol](#) y Coleg ym mis Chwefror 2020. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth a gwerthoedd y Coleg ar gyfer y cyfnod hyd at 2025 ac yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

Gwylwch [ffilm fer](#) sy'n cyflwyno'r Cynllun Strategol

Ein rôl fel corff cynllunio strategol cenedlaethol yw cefnogi a dylanwadu ar bartneriaid drwy'r adnoddau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo addysg ôl-statudol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos y cynnydd a wnaed gan y Coleg a'i bartneriaid yn ystod 2021/22 tuag at wireddu amcanion y cynllun ar draws tri maes:

- Maes 1: Profiad y dysgwr
- Maes 2: Darpariaeth
- Maes 3: Ymwybyddiaeth cyflogwyr o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog

## Maes 1: Profiad y dysgwr


### Amcan 1

Nod y Coleg yw cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y myfyrwyr a/neu'r canrannau sy'n elwa ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog ar draws y sector ôl-orfodol.

### *Addysg Uwch*

Nodweddwyd blynyddoedd cyntaf y degawd a welodd sefydlu'r Coleg gan dwf sydyn yn nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf rhan o'u cwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd arafu yn y cynnydd wedyn wrth i'r sector addysg uwch wynebu cyfnod o ailstrwythuro a thoriadau. Fodd bynnag, calonogol oedd gweld ymchwydd eto yn y niferoedd diweddaraf i'w cyhoeddi ar gyfer 2020/21, pan gofnodwyd bod 7,220 o fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru yn astudio rhywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)



Tra bod patrymau astudio yn amrywio rhwng gwahanol lefelau a dulliau astudio, gwelwyd y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr israddedig llawn-amser yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020/21, sef 5,370, bron ddwywaith yn fwy nag yn 2011/12. Yr unig garfan o fyfyrwyr i weld gostyngiad yn eu niferoedd cyfrwng Cymraeg ers 2019/20 oedd y myfyrwyr rhan-amser israddedig, gan barhau â phatrwm cyson (a chyffredin ar draws y sector cyfan) dros y degawd diwethaf.

Erbyn hyn, mae 18% o'r holl siaradwyr Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn astudio o leiaf 5 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg, a 12% yn astudio 40 credyd a rhagor yn y Gymraeg. At hynny, mae nifer cynyddol o fyfyrwyr – nad oes ganddynt unrhyw sgiliau yn y Gymraeg ar hyn o bryd – yn cael cyfle i brofi amgylchedd dysgu dwyieithog, ac yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Dau o brif flaenoriaethau Cynllun Academaidd Addysg Uwch newydd y Coleg yw ymestyn y cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i ragor o fyfyrwyr, ac i ddenu cynulleidfaoedd newydd at y cyfleoedd hynny. Drwy gydweithio'n agos gyda'r



## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

prifysgolion a'r colegau addysg bellach sy'n darparu addysg uwch, byddwn yn cefnogi prosiectau a fydd yn arwain at dwf pellach mewn niferoedd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg dros y degawd nesaf.

**Tabl 1: Myfyrwyr pob prifysgol sy'n astudio 'rhywfaint' yn y Gymraeg, yn ôl lefel a dull astudio, 2010/11–2020/21**

Dull astudio	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Llawr amser Isradde dig	2,705	3,380	3,590	3,465	4,610	4,350	4,570	4,505	4,375	5,370
Llawr amser ôl-radd	365	475	510	575	740	810	705	740	500	795
Rhan amser Isradde dig	1,500	1,415	855	1,430	1,960	880	900	885	885	825
Rhan amser Ôl-radd	130	195	220	890	395	745	230	140	155	230
	<b>4,700</b>	<b>5,465</b>	<b>5,175</b>	<b>6,360</b>	<b>7,705</b>	<b>6,785</b>	<b>6,405</b>	<b>6,270</b>	<b>5,915</b>	<b>7,220</b>

Ffynhonnell data: Bwletin Ystadegol 'Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2020/21' (28 Gorffennaf 2022)

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### Astudiaeth achos 1: Darlithwyr Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, Prifysgol

#### Bangor, yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr

Mae tîm dysgu Polisi Cymdeithasol Prifysgol Bangor yn llwyddo i annog 80% o'r myfyrwyr hyderus eu Cymraeg i ddilyn y ddarpariaeth Gymraeg, gyda deg myfyriwr y flwyddyn yn dilyn rhan o'u cwrs yn Gymraeg. Yn ogystal â hyn maent wedi creu adnoddau gwych, megis y [Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg](#), er mwyn sbarduno diddordeb darpar fyfyrwyr cyn dod i'r brifysgol.

Yn ôl Dr Cynog Prys, Darlithydd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor:

'Wrth reswm, mae'r gwaith o annog myfyrwyr i ddilyn darpariaeth yn Gymraeg yn dechrau cyn iddyn nhw droedio ar dir y brifysgol. Rydym yn gweithio i greu llwybr clir i astudio Cymdeithaseg yn y Gymraeg yn yr ysgol ac wedyn ymlaen at y brifysgol.'

'Gyda chyhoeddi'r *Pecyn Adnoddau Amlgyfrwng Cymdeithaseg*, mae darpar fyfyrwyr yn dod i arfer â themau Cymraeg ac yn gweld adnodd defnyddiol a deniadol. Yn y brifysgol ceir adnoddau newydd ar-lein ar *Astudio Cymru Gyfoes a Theori Gymdeithasegol* a gydgyhychwyd gyda phrifysgolion eraill dan arweiniad y Coleg Cymraeg. Mae'r adnoddau newydd hyn yn asedau gwych i ysbrydoli a chefnogi myfyrwyr a disgyblion ysgol Cymru.'

### Astudiaeth achos 2: Ysgoloriaeth yn help i Rhodri

Nid Aberystwyth oedd dewis cyntaf Rhodri Lewis, o Tegryn ger Crymym, pan oedd yn ceisio penderfynu pa brifysgol i fynd iddi i astudio Daearyddiaeth. Ond wedi iddo glywed pethau da am yr adran ym Mhrifysgol Aberystwyth ac y byddai dewis ganddo i astudio rhan o'i gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, i'r coleg ger y lli yr aeth.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

Roedd derbyn ysgoloriaeth cymhelliant y Coleg Cymraeg o £500 y flwyddyn am astudio rhan o'i gwrs yn Gymraeg yn sicr yn help i'w berswadio i astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddai: 'Mae'r ysgoloriaeth yn sicr yn ysgogiad i mi ddilyn modiwlau ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n ffordd dda o barhau i wella fy sgiliau dwyieithog ar gyfer y dyfodol. Mae'r ysgoloriaeth yn help mawr gyda chostau byw fel myfyriwr.'

Mae Rhodri bellach yn ei flwyddyn olaf ac am fynd yn ei flaen i ddilyn gyrfa ym maes Daearyddiaeth, gyda diolch i'w ddarlithydd ysbrydoledig Dr Hywel Griffiths. Mae'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth yn derbyn grant pynciol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir i fyfyrwyr.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

### Addysg Bellach a Phrentisiaethau

#### Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau

O edrych ar ffigurau data *Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Lifelong Learning Wales Record (LLWR)) 2020/21*, gwelwn fod buddsoddiad cychwynnol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau yn dwyn ffrwyth. Hyd yma, bu'r Coleg yn buddsoddi yn y meysydd Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Tabl 2: Gweithgareddau dysgu gydag o leiaf elfen Gymraeg**

Blwyddyn	Addysg bellach	Dysgu yn y gweithle
2017/18	7.3%	10.3%
2018/19	8.7%	11.9%
2019/20	8.8%	13.0%
2020/21	14.7%	20.8%

Ffynhonnell data: [Adroddiad data cyfredol LLWR](#) (tud. 29)

#### Astudiaeth achos: Prif-ffrydio'r Gymraeg o fewn darparwr prentisiaethau

Mae Emma McCutcheon yn Rheolwr Ansawdd gyda Grŵp Educ8, ac yn gweithio yn y sector dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau. Mae Emma yn pwysleisio eu bod fel cwmni yn mynd ati i gefnogi eu dysgwyr sydd ar lefelau is y pyramid iaith (sef dysgwyr sy'n meddu ar ddim ond ychydig o sgiliau yn y Gymraeg) wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac yna'n perswadio'r rheiny sydd yn rhugl i gwblhau eu rhaglen waith yn ddwyieithog er mwyn gweithio tuag at strategaeth Llywodraeth Cymru'.

Yn ddiweddar, penododd Grŵp Educ8 Swyddog Datblygu'r Gymraeg er mwyn cefnogi dysgwyr a staff: 'mae recriwtio rhywun sydd yn rhugl yn y Gymraeg ac sy'n

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

angerddol am yr iaith yn golygu y gall yr unigolyn hwnnw gefnogi ein staff a'n dysgwyr gan ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a datblygu adnoddau dwyieithog'.

Mae Emma'n pwysleisio eu bod yn ymrwmo i ddatblygu sgiliau Cymraeg pob aelod o staff, ac er bod hyn yn ymrwymiad mawr iddynt fel cwmni, mae'n nodi bod yn rhaid iddynt feddu ar y meddylfryd cywir a bod yn gadarnhaol am y Gymraeg.

'Mae'r Gymraeg ym mhobman: mae adran yn y Gymraeg ar ein platfform dysgu, Moodle; ac mae yna adran Gymraeg ar y dudalen we ar gyfer staff. Rydym yn ceisio dod yn fwy dwyieithog; rwy'n credu bod ein meddylfryd yn gadarnhaol.'

Mae'r adnodd *Prentis-iaith* yn adnodd craidd i brentisiaid Educ8, wrth i bob prentis ei gwblhau dros fisoedd cyntaf eu rhaglen.

Gallwch glywed rhagor am [brofiadau Emma ac Educ8](#) mewn fideo ar sianel Youtube y Coleg.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygrych)

### Amcan 2

Nod y Coleg yw gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel.

### Addysg Uwch

#### Adroddiad data addysg uwch

Mae data swyddogol y *Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA/TEF)* yn dangos sut mae profiad myfyrwyr sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cymharu â myfyrwyr eraill. Mae'r data'n dangos bod eu profiadau addysgiadol yn well na myfyrwyr eraill. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael swydd/astudio ymhellach ar ôl graddio, a bod y swydd honno'n swydd ar lefel raddedig.

**Tabl 3: Data diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar brofiad myfyrwyr fesul cyfrwng**

	Cyfrwng addysgu	
	Saesneg	Cymraeg
Hapus gyda safon addysgu ar y cwrs	86	89
Hapus gyda safon yr asesu ac adborth	73	77
Hapus gyda'r gefnogaeth academiaidd	82	86
Y ganran o fyfyrwyr sydd mewn cyflogaeth neu'n astudio ymhellach ar ôl graddio	93	97
Y ganran o fyfyrwyr sydd mewn cyflogaeth uwch neu'n astudio ymhellach ar ôl graddio	67	73

Ffynhonnell data: *Data Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer Prifysgolion Cymru (2017, 2018, 2019)*. Mae'r OfS (*Office for Students*) yn anelu at gyhoeddi'r data nesaf yn 2023.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### Astudiaeth achos 1: Cyfrannu at yr ymdrech i gynyddu'r nifer o addysgwyr cyfrwng Cymraeg

Gan gydnabod bod angen graddedigion sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n mynd ymlaen i addysgu, mae'r Coleg Cymraeg yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid er mwyn cefnogi datblygiad modiwlau *Blas ar Ddysgu*. Datblygwyd modiwlau *Blas ar Ddysgu Mathemateg* dan gefnogaeth y Coleg ym mhrifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth ac mae nifer o'r myfyrwyr hyn wedi mynd ymlaen i ddilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), neu gael swydd berthnasol yn syth. Un o'r rhain yw Llio Davies o Chwilog.

Meddai Llio, 'Yn ystod fy nghyfnod fel myfyriwr Mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth, fe ges i brofiadau amhrisiadwy. Roedd y modiwl *Cyflwyniad i Addysgu Mathemateg mewn Ysgol Uwchradd* wedi cynyddu fy hyder ac wedi fy argyhoeddi mai mentro i'r byd addysg oedd yr yrfa i mi. Fe ges i brofiad o ddeng niwrnod yn Ysgol Bro Teifi lle cefais i gyfle i adlewyrchu ar ddulliau addysgu athrawon profiadol a datblygu dealltwriaeth dda o'r sgiliau allweddol ar gyfer addysgu Mathemateg.'

'Fe wnaeth gymaint o wahaniaeth i'm sgiliau cyflogadwyedd. Yn wir, roeddwn wedi cael cynnig swydd fel darlithydd Mathemateg yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau, cyn i mi raddio a dwi bellach yn cael hyfforddiant TAR yn y swydd.'

### Astudiaeth achos 2: Llundio Hanes: Hanesyddiaeth a Chrefft yr Hanesydd

'Yng nghyd-destun mudiad *Black Lives Matter* yn haf 2020, cafwyd gwared ar gerflun Syr Thomas Picton (1758–1815) o galeri "Arwyr Cymru" yn Neuadd y Ddinas Caerdydd,' meddai Dr Meilyr Powel yn ei epilog i *Llundio Hanes: Hanesyddiaeth a Chrefft yr Hanesydd*. 'Dyma i chi dystiolaeth o hanes byw; y deialog diderfyn rhwng y presennol a'r gorffennol.'

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

Mae'r gyfrol hon, dan olygyddiaeth Dr Powel a Dr Gethin Matthews, yn cyflwyno hanesyddiaeth – sef sut mae hanes yn cael ei ysgrifennu – i fyfyrwyr israddedig. Mae'r awduron yn haneswyr blaenllaw sy'n archwilio gwahanol ffyrdd o 'greu' hanes, o hanes y 'dynion mawr' i hanes ffeministaidd a hanes ôl-drefedigaethol.

Mae hanesyddiaeth yn rhan o bob cwrs gradd Hanes, felly nod y Coleg wrth gomisiynu Gwasg Prifysgol Cymru i gyhoeddi'r gyfrol hon oedd darparu adnodd a fyddai'n crisialu'r dadleuon pwysig mewn iaith hawdd-ei-deall. Mae modd lawrlwytho fersiwn e-lyfr am ddim o [Borth Adnoddau](#)'r Coleg.

### Astudiaeth achos 3: Deunyddiau Dysgu Digidol

Yn ystod pandemig Covid-19, bu'n rhaid i brifysgolion addasu eu dulliau dysgu mewn amser byr, gan ddysgu ar-lein yn unig am gyfnod. Ymatebodd y Coleg drwy sefydlu prosiect er mwyn darparu deunyddiau a fyddai'n caniatáu i ddarlithwyr gyflwyno'r dysgu yn uniongyrchol i'r myfyrwyr drwy ddulliau anghydamserol.

Daethpwyd â darlithwyr ynghyd er mwyn cynllunio a llunio'r cynnwys. Ffrwyth y prosiect oedd [Deunyddiau Dysgu Digidol](#) ym meysydd Astudiaethau Busnes, Gwyddorau Cymdeithasol, Gwyddorau Chwaraeon, Seicoleg a'r Gyfraith. Mae pob uned yn cynnwys darlithoedd fideo, sleidiau PowerPoint, cwestiynau seminar, cwis a darllen pellach.

Mae'r prosiect wedi sbarduno dilysu modiwlau cyfrwng Cymraeg newydd mewn rhai prifysgolion, a gall siaradwyr Cymraeg sy'n astudio mewn prifysgolion lle nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg fanteisio ar ddeunyddiau Cymraeg o safon i gefnogi'u dysgu. Rhoddodd y prosiect gyfle i rai staff gyhoeddi gwaith yn y Gymraeg am y tro cyntaf, a safonwyd cannoedd o dermau newydd.

Cyllidwyd y prosiect gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.



## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### *Addysg Bellach a Phrentisiaethau*

#### Addroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau

Mae sicrhau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel yn flaenoriaeth i'r Coleg. Dros y blynyddoedd nesaf, wrth i Estyn ailgydio yn y gwaith o arolygu'r colegau addysg bellach, bydd modd datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a gynigir gan y colegau gyda chefnogaeth y Coleg.

Mae'r Coleg yn canolbwyntio ar sicrhau'r profiad gorau i ddysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog drwy ddatblygu adnoddau digidol atyniadol ar draws ystod o bynciau blaenoriaeth, a hefyd drwy gynnig cefnogaeth ymarferol i staff ar ddefnyddio gwefan Hwb Llywodraeth Cymru, a gafodd ei ymestyn i'r sector addysg bellach yn ddiweddar. Mae Hwb yn galluogi staff y sector i rwydweithio, rhannu adnoddau a chael mynediad at lyfrgell o adnoddau o ansawdd uchel.

#### Astudiaeth achos 1: Cyflwyno Hwb i'r sector addysg bellach

Yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymestyn gwefan Hwb i'r sector addysg bellach, bu'r Coleg Cymraeg yn hyrwyddo defnydd Hwb ymysg staff y sector gan ganolbwyntio ar ddarparu sesiynau ar Hwb yn y paneli pwnc Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â mewn cyfarfodydd eraill. Cyflwynwyd Hwb i 139 o aelodau staff y sector mewn cyfarfodydd o'r fath. Mynegodd sawl aelod o staff nad oeddent yn ymwybodol bod adnoddau dwyieithog ar gael ar Hwb ar gyfer y sector addysg bellach cyn y sesiynau hyn.

Mae'r Coleg yn cydweithio'n agos gyda Hwb er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Coleg yn cael eu hyrwyddo ar wefan Hwb a bod y Coleg yn hyrwyddo adnoddau Hwb ar y Porth Adnoddau, a hynny er mwyn sicrhau bod adnoddau dwyieithog y sector yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Yn ogystal â hyn, mae'r Coleg wedi sefydlu rhwydweithiau Hwb ar gyfer y paneli pwnc.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

Gobeithir y bydd y rhwydweithiau digidol hyn yn gyfle i staff rannu arfer dda, trafod heriau a rhannu adnoddau. Bydd y Coleg hefyd yn gallu defnyddio'r rhwydweithiau hyn i rannu diweddariadau ac adnoddau â'r sector.

### Astudiaeth achos 2: *Prentis-iaith* ar lefelau uwch y pyramid

Mae adnodd [Prentis-iaith](#) bellach ar gael ar gyfer prentisiaid ar bob lefel o'r [pyramid iaith](#) yn sgil lansio dau adnodd *Prentis-iaith* newydd, ar lefelau [hyder](#) a [rhuglder](#). Prentis-iaith yw un o adnoddau mwyaf llwyddiannus y Coleg, gyda dros 30,000 o ymweliadau â'r gyfres o adnoddau ar ein [Porth Adnoddau](#).

Dyma oedd gan Elen Rees, un o gyfarwyddwyr Hyfforddiant Cambrian, ei ddweud yn sgil cyhoeddi'r ddau adnodd *Prentis-iaith* newydd:

*'Rwy'n falch iawn o glywed bod adnoddau Prentis-iaith wedi cael eu cyhoeddi ar Lefelau Hyder a Rhuglder. Mae adnoddau Prentis-iaith wedi'n galluogi ni i gyflwyno gwerth chwech awr o Gymraeg i'n prentisiaid a'n dysgwyr sydd o leiaf ar lefelau iaith ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y coleg a'r gweithle. Rwy'n hyderus y bydd y ddau adnodd nesaf yn cael yr un effaith ar ein prentisiaid a'n dysgwyr ar lefelau iaith hyder a rhuglder ac felly bydd pob prentis a dysgwr yn gallu elwa o'r adnoddau hyn beth bynnag ei lefel iaith.'*

### Astudiaeth achos 3: Myfyrwyr a darlithwyr yn derbyn gwobrau gan rai o sêr amlycaf Cymru

Gwobrwywyd myfyrwyr, prentisiaid a darlithwyr disglair mewn dathliad arbennig yng Nghanolfan S4C yr Egin ym mis Gorffennaf 2022 gan rai o wynebau mwyaf cyfarwydd Cymru o'r byd perfformio, teledu a'r byd academiaidd.

Cafwyd enillwyr ar draws pum categori o wobrau myfyrwyr, gan gynnwys Gwobr Addysg Bellach a Phrentisiaethau William Salesbury sy'n cydnabod cyfraniad

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

dysgwr neu brentis i'r bywyd a'r diwylliant Cymraeg mewn coleg addysg bellach neu ddarparwr prentisiaeth. Cafodd y wobwr ei chyflwyno eleni gan Dafydd Iwan i Ffion Llewellyn o Goleg Caerdydd a'r Fro am ei chyfraniad fel llysgennad brwdfrydig wrth iddi godi proffil y Gymraeg ar draws y coleg ac wrth iddi gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg mewn ffordd greadigol a hwyliog. Wrth dderbyn y wobwr, meddai Ffion:

'Dwi mor ddiolchgar am y gydnabyddiaeth ac am y cyfleoedd dwi wedi derbyn gyda'r Coleg Cymraeg fel llysgennad, sydd wedi fy annog i barhau i siarad Cymraeg yn fy ardal yng Nghasnewydd ac yn fy ngwaith. Cefais fy magu ar aelwyd ddwyieithog ac roedd yr iaith ac addysg cyfrwng Cymraeg yn golygu cymaint i fy niweddar dad, felly mae'r wobwr yma iddo fe.'

Yn ogystal, gwobrwywyd darlithwyr am eu gwaith, ac eleni dyfarnwyd y Wobwr am Gyfraniad Eithriadol i Addysg Cyfrwng Cymraeg i Gwenan Prysor, sy'n uwch-ddarlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor, am arwain cwrs MA Gwaith Cymdeithasol a ddarperir 100% drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd:

'Diolch yn fawr i'r Coleg Cymraeg am gydnabod gwerth cefnogi gwaith cymdeithasol fel pwnc ac fel proffesiwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg mor mor bwysig, ac yn gwneud byd o wahaniaeth i deuluoedd a phlant bregus ledled Cymru. Diolch o waelod calon.'

Gellir [gwyllo Noson Wobrau'r Coleg](#) ar sianel Youtube y Coleg.

## Maes 2: Darpariaeth

### Amcan 1

Drwy gydweithio gyda phartneriaid, nod y Coleg yw sicrhau bod darpariaeth Gymraeg a/neu ddwyieithog ar gael mewn cynifer o feysydd â phosibl ar gyfer addysg uwch, a bod darpariaeth hefyd ar gael yn y meysydd a adnabuwyd yn y [Cynllun Gweithredu](#) ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau.


### *Addysg Uwch*

#### Adroddiad data addysg uwch

Profwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o bynciau y mae modd eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg ers sefydlu'r Coleg. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ym mhob un o'r 36 'prif grŵp pwnc' a restrir yng Nghynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg, o gymharu â 12 yn 2011.

O fewn y 36 'prif grŵp pwnc', ceir 80 pwnc academaidd. Erbyn hyn, mae modd astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn o leiaf un sefydliad yn achos 75 o'r pynciau hyn.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)



At hynny, mae modd astudio'n helaeth (h.y. o leiaf 40 credyd y flwyddyn) yn 62 o'r pynciau academiaidd hyn mewn o leiaf un sefydliad.

Dau bwnc newydd sy'n derbyn cefnogaeth y Coleg i ddatblygu'r cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yw **Cemeg** a **Deintyddiaeth**. Gyda chefnogaeth Grantiau Sbarduno oddi wrth y Coleg, mae Prifysgol Caerdydd wedi penodi darlithwyr cyfrwng Cymraeg yn y ddau bwnc.

[Astudiaeth achos 1: Myfyrwyr Milfeddygaeth yn dysgu yng Nghymru ac yn y Gymraeg am y tro cyntaf erioed](#)

Dan gefnogaeth Grant Sbarduno'r Coleg Cymraeg i Brifysgol Aberystwyth, gwelwyd y myfyrwyr Gwyddor Filfeddygol cyntaf yn astudio elfennau o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22.

Cynigir y cwrs ar y cyd gan Brifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygol Brenhinol (Royal Veterinary College (RVC)). Bydd y myfyrwyr ar y radd bum mlynedd yn treulio

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

dwy flynedd ym Mhrifysgol Aberystwyth a thair blynedd wedyn yng Nghampws Hawkshead RVC yn Swydd Hertford.

Meddai Dr Sharon King, un o ddarlithwyr Cymraeg y cwrs Gwyddor Filfeddygol, 'Mae amaeth a'i diwydiannau perthnasol yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru a'r iaith Gymraeg ac felly mae medru darparu yn Gymraeg yn helpu ni i feithrin graddedigion sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gamu i fyd gwaith.'

Mae'r cwrs yn mynd ymhellach i ddarparu elfen o ymwybyddiaeth iaith i'r holl fyfyrwyr, fel yr aiff Sharon yn ei blaen i esbonio, 'Cynhaliwyd gwersi Cymraeg Sylfaen i holl fyfyrwyr yr ail flwyddyn fel rhan orfodol o'r modiwl Astudiaethau Proffesiynol. Y bwriad yw paratoi'r myfyrwyr i fynd i gael profiad ar ffermydd Cymreig. O fynd i'r gwersi, bydd y myfyrwyr yn dod i ddeall pwysigrwydd cyfathrebu yn Gymraeg wrth ymwneud â ffermwyr a milfeddygon Cymraeg eu hiaith'.

### *[Addysg Bellach a Phrentisiaethau](#)*

#### [Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau](#)

Dyrannwyd £1,075,034 i golegau addysg bellach er mwyn cynyddu eu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Dyfarnwyd grantiau datblygu i 12 coleg fel a ganlyn:

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

**Tabl 4: Grantiau Datblygu**

Maes pwnc	Sefydliad
Sgiliau	Addysg Oedolion Cymru
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Caerdydd a'r Fro
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Cambria
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Gwent
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Gŵyr Abertawe
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Merthyr
Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Pen-y-bont
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Sir Benfro
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion
Gofal Plant Iechyd a Gofal	Coleg y Cymoedd
Gofal Plant Iechyd a Gofal Gwasanaethau Cyhoeddus	Grŵp Colegau NPTC
Iechyd a Gofal Iechyd a Gofal	Grŵp Llandrillo-Menai

Ffynhonnell data: *Data grantiau datblygu 2022*

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### Astudiaeth achos 1: Cyflwyno'r Gymraeg yng Ngholeg Gŵyr

Mae Wayne Price, sy'n diwtor Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn sesiynau addysgu, ac wedi llwyddo i ddatblygu'r diwylliant Cymraeg o fewn yr adran yng Ngholeg Gŵyr. Bu'n sôn wrth y dysgwyr am y manteision o feddu ar sgiliau dwyieithog a bu'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae Wayne yn pwysleisio bod canran uchel o'i ddysgwyr yn eistedd o fewn y lefel dealltwriaeth ar y [pyramid iaith](#), a'i fod yn defnyddio'r dysgwyr sydd yn rhugl i gefnogi'r rhai ar y lefelau is. Mae hyn wedi arwain at effaith bositif tuag at y Gymraeg yn y dosbarthiadau; 'mae ethos y grwpiau tuag at y Gymraeg wedi newid, ma' pobl yn rhoi go ar yr iaith'.

Mae holl ddysgwyr yr adran yn cwblhau adnodd *Prentis-iaith*, sydd yn rhoi sylfaen iddynt o ran y Gymraeg.

Bu'r adborth gan y dysgwyr yn gadarnhaol wrth iddynt nodi eu bod bellach yn gweld y Gymraeg fel sgil defnyddiol a fydd yn rhoi cyfleoedd iddynt yn y dyfodol.

Mae Coleg Gŵyr yn nodi y bu newid amlwg yn yr adran gan fod dysgwyr yn llawer iawn fwy parod i ddechrau sgwrs yn y Gymraeg gyda staff a'u cyfoedion.

Gallwch glywed rhagor am brofiad Wayne yn y fideo [hwn](#).



## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### Amcan 2

Drwy gydweithio gyda phartneriaid, nod y Coleg yw sicrhau bod y nifer angenrheidiol o staff ar gael i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog.

### *Addysg Uwch*

#### Adroddiad data addysg uwch

Mae niferoedd staff yn y prifysgolion sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i aros yn weddol sefydlog ar draws y sector, er bod y cyfanswm wedi gostwng ychydig ers y flwyddyn flaenorol. Mae llawer o'r staff hyn yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Grantiau Pynciol a Grantiau Sbarduno'r Coleg.

Mae'r Coleg yn cydnabod, serch hynny, fod hwn yn gyfnod anodd i brifysgolion a cholegau addysg bellach fel ei gilydd yn wyneb nifer o heriau economaidd. Rhoddwyd cryn bwysau ar sefydliadau o ganlyniad i COVID ac mae chwyddiant yn anochel yn mynd i effeithio ar gostau staffio sefydliadau addysg hefyd. Bydd y Coleg yn eu cefnogi er mwyn sicrhau bod adnoddau staffio digonol yn cael eu diogelu i allu cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ac i fyfyrwyr.

Mae cynllun y Darlithwyr Cysylltiol hefyd yn mynd o nerth i nerth ers ei lansio yn 2018. Pwrpas y cynllun yw creu cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg sy'n gweithio ar draws y sector prifysgolion. Erbyn hyn, mae dros 625 o aelodau wedi ymuno â'r cynllun.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Tabl 5: Staff sy'n addysgu yn y Gymraeg

	Addysgu yn y Gymraeg
2008/09	455
2009/10	460
2010/11	465
2011/12	510
2012/13	645
2013/14	595
2014/15	630
2015/16	590
2016/17	635
2017/18	635
2018/19	605
2019/20	600
2020/21	575

Ffynhonnell data: *Bwletin Ystadegol 'Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2020/21'* (28 Gorffennaf 2022)

Astudiaeth achos 1: Cyfleoedd i fyfyrwyr iechyd y gogledd-ddwyrain astudio yn

Gymraeg

Yn dilyn rhoi Grant Rhyngddisgyblaethol i Brifysgol Glyndŵr, penodwyd Alex Jones i ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn y meysydd iechyd. Mae Alex yn Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol sy'n gweithio'n glinigol gyda phlant sydd ag anghenion cyfathrebu. Yn ei rôl fel darlithydd, mae'n cyfrannu at gynllunio a dysgu cwrs Therapi Iaith a Lleferydd newydd Prifysgol Glyndŵr yn y Gymraeg, ac mae'n prysur ddatblygu 40 credyd yn y Gymraeg ym mhob blwyddyn astudio.

Meddai Alex,

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

'Yn ychwanegol at hyn, rwy'n hwyluso elfennau Addysg Ryngbroffesiynol yn Gymraeg i fyfyrwyr Cymraeg ar draws cyrsiau iechyd y Brifysgol. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys sesiynau Cyfathrebu'n Effeithiol, Arweinyddiaeth a Iechyd a Lles. Mae tystiolaeth fod trin claf trwy gyfrwng ei iaith gyntaf yn cael effaith gadarnhaol ar driniaeth a phrofiad y claf, ac rwy'n falch iawn o fod yn cyfrannu at yr ymgyrch i sicrhau bod mwy o ymarferwyr iechyd yn medru hyfforddi yn Gymraeg yn y gogledd-ddwyrain.'

[Astudiaeth achos 2: Penodi staff i ehangu'r ddarpariaeth Chwaraeon ym](#)

[Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd](#)

Ers sawl blwyddyn, bu'r Coleg Cymraeg yn cefnogi Prifysgol Metropolitan Caerdydd i ddatblygu Chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygwyd y rhaglen Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol (AChAG), lle yr oedd rhan helaeth y dysgu yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg. Llwyddodd y cwrs i ddenu nifer o fyfyrwyr dros y blynyddoedd. Yn ddiweddar, bu'r Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd yn ehangu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws nifer o gyrsiau gradd. Un o'r rhain yw'r cwrs Cyfryngau Chwaraeon.

Penodwyd Eleanore Glynn i addysgu ar y cwrs hwn, sydd ei hun yn gyn-fyfyrwraig ar y cwrs AChAG ac a ddilynodd bob modiwl posibl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddai Eleanore, 'Mae Cyfryngau Chwaraeon yn faes twf i ni yn y Brifysgol. Mae sefydliadau chwaraeon Cymru wedi cydnabod y galw am bresenoldeb ar-lein Cymraeg, yn ogystal â'r manteision gwleidyddol, economaidd a diwylliannol o gael hynny. Gyda llwyddiannau arwrol Cymru ym myd y campau, yn enwedig llwyddiant diweddar y tîm pêl-droed i gyrraedd Cwpan y Byd yn Qatar 2022, a thrafodaethau ynghylch gwleidyddiaeth mewn chwaraeon, nid oes amser gwell i astudio'r pwnc yn y Gymraeg!'

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

### [Astudiaeth achos 3:Cymraeg Gwaith yn datblygu sgiliau a hyder Kate Wright yn y gweithle](#)

Yn wreiddiol o Tamworth, cafodd Kate flas ar ddysgu Cymraeg pan ddaeth i Brifysgol Aberystwyth fel myfyrwraig.

Yn fwy diweddar, fel aelod o staff ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae hi wedi ailafael yn y dysgu ac wedi elwa o'r cynllun *Cymraeg Gwaith*, gan ddechrau ar Lefel Sylfaen yn 2019, ac erbyn hyn mae'n dysgu ar Lefel Uwch.

O ganlyniad i'r cynnydd y mae hi wedi'i wneud, mae Kate yn defnyddio'i Chymraeg yn ei gwaith. Mae'n cynnig rhannau o sesiynau hyfforddiant i staff y Brifysgol yn y Gymraeg, ac mae'n gweithio tuag at ddarparu pob elfen yn y Gymraeg.

Mae Kate yn berson brwdfrydig iawn, ac mae hynny wedi ysbrydoli eraill yn ei thîm i ddysgu'r Gymraeg. Yn ogystal, mae ei gŵr erbyn hyn yn rhan o gynllun Cymraeg Gwaith ar lefel Mynediad 2, ac fel teulu maen nhw'n ceisio siarad Cymraeg ar adegau penodol o'r wythnos gan fod eu plant yn dysgu hefyd.

Enillodd Kate wobwr 'Dysgwr Disglair' yng ngwobrau Hybu'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar.

### [Addysg Bellach a Phrentisiaethau](#)

#### [Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau](#)

Cyhoeddir y data am y sefyllfa staffio yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau bob blwyddyn gan y Cyngor Gweithlu Addysg a dengys y data ar gyfer 2022 fod cynnydd i'w weld yn nifer y staff addysg bellach sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Er bod y data yn dangos ychydig o gwmp o ran nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y sector prentisiaethau, dengys cynnydd yn nifer y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y sector prentisiaethau.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Tabl 6: Staff sy'n siarad ac yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

	2020	2021	2022
<b>Staff sy'n siarad Cymraeg (AB)</b>	1,095	1,083	1,120
<b>Staff sy'n siarad Cymraeg (Prentisiaethau)</b>	456	435	432
<b>Staff sy'n dysgu yn y Gymraeg (AB)</b>	764	771	789
<b>Staff sy'n dysgu yn y Gymraeg (Prentisiaethau)</b>	314	313	321

[Ffynhonnell data](#) (tud. 32 AB, tud. 45 DSW)

### Astudiaeth achos 1: Sefydlu'r Cynllun Gwreiddio

Mae'r [Cynllun Gwreiddio](#) yn gynllun newydd gan y Coleg Cymraeg ar gyfer staff y sector ôl-16.

Mae croeso i unrhyw aelod o staff yn y sector ôl-16 sy'n cyfrannu at addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, neu sydd â diddordeb ynddo, i ddod yn aelod (beth bynnag yw eu sgiliau Cymraeg). Hyd yma, mae dros 100 o ymarferwyr, tiwtoriaid ac aseswyr wedi ymuno â'r cynllun ac yn elwa ar fod yn aelodau o'r paneli pwnc, yn ogystal ag elwa ar gael mynediad at amrediad o adnoddau gwahanol ac o fod yn rhan o gymuned ar draws Cymru.

Mae aelodau'r Cynllun Gwreiddio yn rhan o gymuned frwdfrydig o staff sy'n gweithio er mwyn gwreiddio dwyieithrwydd ar draws y sector ôl-16. Wrth ymaelodi â'r Cynllun Gwreiddio, bydd staff hefyd yn derbyn Newyddlen Ôl-16 y Coleg. Mae gwybodaeth

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

am waith y Coleg yn y sector a holl fuddion y Cynllun Gwreiddio i'w gael yn y [pecyn gwybodaeth](#), a hefyd ar ffurf [animeiddiad](#).

Astudiaeth achos 2: Shellie Scott o Goleg Caerdydd a'r Fro yn defnyddio'i

Chymraeg yn y dosbarth a thu hwnt

Dechreuodd Shellie ddysgu Cymraeg ar y cynllun *Cymraeg Gwaith* yn 2017, sef blwyddyn peilot y cynllun. Yn ogystal â'i brwdfrydedd yn y gwersi, mae wedi defnyddio pob cyfle posibl i ddefnyddio'i Chymraeg y tu allan i'r dosbarth ers y wers gyntaf.

Mae Shellie'n cydlynu gweithgareddau ychwanegol i'r staff sy'n siarad ac yn dysgu Cymraeg o fewn y Coleg, ac wedi mwynhau cynrychioli'r Coleg ar ei stondin yn Tafwyl eleni.

Dywedodd Aimee Jones, tiwtor *Cymraeg Gwaith* Coleg Caerdydd a'r Fro: 'Mae Shellie wedi dangos ymrwymiad bendigedig gan weithio'n galed i gyrraedd ei llawn botensial'.

Bu Shellie'n un o gefnogwyr y Gymraeg yn y Coleg, ac yn ddiweddar cafodd ei phenodi'n Swyddog Pontio'r Gymraeg gyda Choleg Caerdydd a'r Fro.

Erbyn hyn, mae'n aelod o staff gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn ei rôl newydd, gan ddefnyddio'i phrofiad o fod yn ddysgwraig Cymraeg er mwyn ysbrydoli eraill. Mae hi'n ennyn parch ac yn ysbrydoliaeth i siaradwyr Cymraeg ar bob lefel.

## **Maes 3: Ymwybyddiaeth Cyflogwyr**

Nod y Coleg yw gweithio gydag eraill er mwyn sicrhau cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog a sgiliau yn y Gymraeg.

[Astudiaeth achos: Partneriaeth gyda Choleg Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Hywel](#)

[Dda](#)

Fel tiwtor Dysgu'n Seiliedig ar Waith yng Ngholeg Sir Benfro, mae Janice Morgan wedi rhagori yn ei rôl o wreiddio ethos dwyieithog ar draws yr adran Iechyd a Gofal yn y coleg hwnnw drwy rannu manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â thrwy roi cefnogaeth barhaol i brentisiaid gwblhau eu gwaith yn ddwyieithog, a datblygu sgiliau ieithyddol y rhai sy'n llai hyderus yn y Gymraeg.

Mae'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn sesiynau addysgu, ac mae ei hangerdd a'i brwdfrydedd yn annog bob dysgwr i ddefnyddio'i Gymraeg yn y dosbarth (beth bynnag yw eu sgiliau Cymraeg) wedi cael effaith gadarnhaol.

Yn ôl Jasmin Davies-Kumar, sydd yn astudio rhan o'i phrentisiaeth mewn Gofal Iechyd Clinigol yng Ngholeg Sir Benfro trwy gyfrwng y Gymraeg:

'O brofiad mae'n well gan bobl fregus, a phlant yn enwedig, siarad yn eu mamiaith. Pan mae claf yn clywed rhywun yn siarad Cymraeg, maent yn teimlo'n gyfforddus yn syth ac felly o ddefnyddio ychydig o Gymraeg dwi wedi llwyddo i fagu perthynas glòs gyda'r cleifion.'

'Diolch i'r Coleg Cymraeg a chefnogaeth uniongyrchol a chyson gan fy nhiwtor, Janice Morgan, dwi wedi datblygu'r sgiliau i weithio'n ddwyieithog a fydd hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd gwaith i mi yn y dyfodol.'

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

---

Yn ogystal, mae Janice wedi cefnogi prentisiaid rhugl i gwblhau cyflwyniadau ar Dementia yn y Gymraeg, ac o ganlyniad mae hyder nifer i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau mwy ffurfiol wedi codi.

Mae llwyddiant Jasmin a llwyddiant yr holl fyfyrwyr eraill sydd wedi elwa o ymroddiad a brwdfrydedd Janice fel tiwtor wedi arwain at feithrin a chefnogi'r genhedlaeth newydd o brentisiaid a fydd yn medru gweithio gyda chleifion yn ddwyieithog.

Diolch yn fawr am eich diddordeb yng ngwaith y Coleg